YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru
The Governing Body of The Church in Wales

Pwyllgor Sefydlog

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ar-lein ar 8 Ebrill 2024.

Yn bresennol:

Aelodau Ex-officio

Y Parchedicaf Archesgob Cymru
Y Gwir Barchedig Esgob Mynwy
Y Gwir Barchedig Esgob Abertawe ac Aberhonddu
Y Gwir Barchedig Esgob Llandaf
Y Gwir Barchedig Esgob Tyddewi
Y Tra Pharchedig Nigel Williams, Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Enwebwyd gan Bwyllgorau Sefydlog yr Esgobaethau

Y Parchedig Ganon Dr Trish Owens
Y Parchedig Richard Wood
Mr Keith Wadcock
Mr Tim Llewelyn (Cadeirydd)
Yr Hybarch Rod Green
Dr Heather Payne (Is-gadeirydd)
Ms Caroline Woollard
Y Parchedig Ganon Justin Davies
Mr Paul Murray

Yn bresennol:
Ysgrifennydd y Dalaith, Swyddog y Corff Llywodraethol, y Rheolwr Llywodraethu a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:
Y Gwir Barchedig Esgob Llanelwy
Yr Hybarch Paul Mackness
Yr Hybarch Stella Bailey
Yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Ei Anrhydedd Y Barnwr Andrew Keyser CB
Mr Paul Whittaker CBE

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Gweddïau

Offrymwyd y gweddïau agoriadol gan y Parchedig Ganon Justin Davies.

Briff gan y Cadeirydd ar y ddau Gynnig Aelodau Preifat y bwriedir eu trafod yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol ar Ebrill 2024

24/09

Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Sefydlog fod dau gynnig Aelodau preifat wedi dod ger bron i'w trafod yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, erbyn y dyddiad cau:

Cynnig 1

- Cynnig ar ddiddymu terfynau oedran uchaf ar gyfer swyddi penodol yn y Cyfansoddiad, a gynigiwyd gan y Parchedig Peter Ratcliffe ac a eiliwyd gan Mrs Hannah Wilkinson

O ran y cynnig cyntaf, adroddodd y Cadeirydd fod y Parchedig Peter Ratcliffe yn absennol oherwydd salwch ar hyn o bryd, felly ni fyddai yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill. Ni fyddai'n bresennol chwaith i gyflwyno'r cynnig i gyfarfod mis Medi 2024, oherwydd ymrwymiad blaenorol.

Efallai y bydd y Pwyllgor Sefydlog ei hun yn dymuno cyflwyno argymhellion i'r Corff Llywodraethol ar fater terfynau oedran o fewn y Cyfansoddiad.

Cynnig 2

- Cynnig ar hawl gwyliau a'i effaith ar les clerigion, gan y Parchedig Kate O'Sullivan. (Nodwyd bod y Parchedig Gareth Rayner-Williams wedi tynnu'n ôl fel eilydd, gan na fyddai'n bresennol yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, fodd bynnag, roedd ymgais ar y gweill i gael eilydd arall.)

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y cynnig mewn trefn, ac roedd yn ymwneud â newid i'r Telerau Gwasanaeth yn y Llawlyfr Clerigion.

Wrth drafod, nododd y Pwyllgor Sefydlog:

- Mae rhai esgobaethau eisoes yn gweithredu'r arfer a hyrwyddir yn y cynnig;
- Croesawyd cynigion sy'n ceisio gwarchod lles clerigion,

- Mae’r hyblygrwydd o ran diwrnodau i ffwrdd, sy'n angenrheidiol ar gyfer digwyddiadau bywyd sy'n ymwneud â bugeilio, yn amrywio o glerig i glerig, felly mae angen gochel rhag creu rheol ragnodol;
- Dylai clerigion yr argymhellwyd Datblygiad Gweinidogol Parhaus ar eu cyfer gymryd amser i ffwrdd, a rheoli eu hamser yn effeithiol;
- Gallai'r cynnig, fel y mae wedi ei ddrafftio, ddenu nifer o welliannau ar lawr cyfarfod y Corff Llywodraethol;
- Roedd gwelliant i gynnwys darpariaeth ar gyfer clerigion digyflog yn debygol o gael ei gyflwyno.

Briff gan y Cadeirydd am y cwestiynau a gyflwynwyd i'w hateb yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol Ebrill 2024

24/10

Hysbyswyd y Pwyllgor Sefydlog fod y nifer fwyaf ers blynyddoedd lawer o gwestiynau ysgrifenedig (deg cwestiwn i gyd) wedi'u derbyn ar gyfer mis Ebrill a bod bwriad i’w hateb ar lafar yn y cyfarfod.

Rhoddwyd copi o’r holl gwestiynau i'r Pwyllgor gan nodi pwy oedd wedi cytuno i gyflwyno'r atebion. Cyn y cyfarfod, byddai swyddogion yn drafftio atebion i'r cwestiynau i'w trafod gyda'r rhai a oedd wedi cytuno i'w cyflwyno. Byddai'r atebion yn cael eu rhannu ymhlith holl aelodau'r Panel Cadeiryddion ac Aseswyr cyn cyfarfod y Corff Llywodraethol a’u cyhoeddi maes o law ar wefan yr Eglwys yng Nghymru ar ôl y cyfarfod

Ymddiriedolwyr y Gymdeithas Genedlaethol

24/11

Trafododd y Pwyllgor Sefydlog benodiad ymddiriedolwr i Gymdeithas Genedlaethol Addysg Grefyddol yng Nghymru a Lloegr. Nodwyd bod y Corff Llywodraethol wedi penodi dau ymddiriedolwr i'r Gymdeithas Genedlaethol. Yn ôl yr arfer, roedd yr esgob a oedd yn gyfrifol am y portffolio addysg, sef Esgob Llandaf, yn un o'r ymddiriedolwyr. Yr Ysgrifennydd Lleyg oedd y llall ers Medi 2017, ac roedd yn dymuno ymddiswyddo.

Ystyriodd y Pwyllgor Sefydlog argymhelliad fod Dr Grahame Davies, Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth, yn gwasanaethu fel ymddiriedolwr y *National Society* fel olynydd i'r Ysgrifennydd Lleyg.

Yn unol â hynny, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i argymell bod y Corff Llywodraethol yn penodi Dr Grahame Davies, Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth, i wasanaethu fel ymddiriedolwr y Gymdeithas Genedlaethol, yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

24/12

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog i’w gynnal dros 24 awr, ddydd Mercher a dydd Iau 14 a 15 Mai, yn y Future Inn, Caerdydd.

Gweddi i gloi

Offrymwyd gweddi gan yr Archesgob i gloi'r cyfarfod.

Cofnodion y Pwyllgor Sefydlog 8/4/24
J.R. 12.05.24